

Cyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol

Datganiad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd o dan adran 13(5) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010

Penderfyniad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Ar 4 Mawrth 2021, gwnaeth Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ("y Bwrdd") benderfyniad mewn perthynas â chyflogau Aelodau o'r Senedd o dan adrannau 20(1) a 53(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Penderfyniad y Bwrdd yw diwygio'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau yn y Chweched Senedd ("y Penderfyniad") fel a ganlyn:

- mae cyflog yr Aelodau a gynhwysir ym mharagraff 3.1.2 yn cael ei ddiwygio i £67,649, sef y cyflog sy'n gymwys ar gyfer gweddill tymor y Senedd hon – mae hyn yn golygu na fydd cyflogau'r Aelodau'n cynyddu ddechrau'r Chweched Senedd;
- mae'r cyflogau a gynhwysir yn Nhabl 1 ym mharagraff 3.1.4 yn cael eu diwygio i'r cyflogau a nodir yn yr Atodiad i'r datganiad hwn, sef y cyflogau sy'n gymwys ar gyfer gweddill tymor y Senedd hon – mae hyn yn golygu na fydd cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol yn cynyddu ddechrau'r Chweched Senedd;
- bydd y dull mynegeo blynyddol ym mharagraff 3.2.1 yn ddarostyngedig i derfyn uchaf tri y cant a therfyn isaf sero y cant – mae hyn yn golygu na fydd mynegai blynyddol a gymhwysir i gyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol o 2022-23 ymlaen yn fwy na thri y cant ac na fydd yn arwain at ostyngiad mewn cyflog.

Mae'r diwygiadau hyn yn disodli cyflogau presennol yr Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol a nodir yn y Penderfyniad. Roedd y cyflogau a nodwyd yn y Penderfyniad ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd yn seiliedig ar y cyflogau presennol, wedi'u cynyddu 4.4 y cant, a byddent wedi cael codiad 2.4 y cant arall ddechrau'r Chweched Senedd.

Gofynion o dan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010

Dan amgylchiadau arferol, ni chaiff y Bwrdd wneud mwy nag un penderfyniad mewn perthynas â chyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol sydd i gael effaith yn ystod pob un o dymhorau'r Senedd (fel yr amlinellir yn adran 13(3) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 (Mesur 2010)). Mae'r cyfyngiad hwnnw hefyd yn gymwys i benderfyniadau ar dalu cyflogau i'r Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Weinidogion Cymru.

Yn unol ag adran 13(4) o Fesur 2010, mae'r Bwrdd o'r farn bod amgylchiadau eithriadol sy'n golygu ei bod yn gyfiawn ac yn rhesymol i'r cyfyngiadau a osodir gan adran 13(3) o Fesur 2010 beidio â bod yn gymwys.

Mae'r Bwrdd wedi trafod yr amgylchiadau sy'n deillio o bandemig parhaus Covid-19 a'r farn y bydd goblygiadau'r pandemig yn parhau'n hwy na'r hyn a ddisgwyliwyd pan wnaeth

BWRDD TALIADAU REMUNERATION BOARD

y Bwrdd ei benderfyniadau a nodir yn y Penderfyniad. Mae'r Bwrdd o'r farn bod y goblygiadau tymor hwy hyn yn gyfystyr ag amgylchiadau eithriadol sy'n ei gwneud yn gyfiawn ac yn rhesymol newid y Penderfyniad mewn perthynas â chyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol.

Yn benodol, rhoddodd y Bwrdd sylw i'w egwyddorion ei hun fel y'u nodwyd yn strategaeth 2017 sydd wedi llywio ei waith drwyddi draw:

- dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau;
- mae'n rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;
- mae'n rhaid i'r system cymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw ac yn gynaliadwy, ac mae'n rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod rôl bwysig yr Aelodau wrth gynrychioli eu hetholwyr a'u hymrwymiad i gyflawni eu dyletswyddau. Mae hyn yn cynnwys ymgymryd â gwaith achos ychwanegol sylweddol wrth gyflawni dyletswyddau seneddol presennol. Ar yr un pryd, trafododd y Bwrdd effaith economaidd pandemig Covid-19 yng Nghymru.

Yn dilyn blwyddyn o amodau economaidd anffafriol yng Nghymru, mae'r pandemig yn parhau i achosi ansicrwydd mawr ynghylch yr effaith ar incwm gweithwyr Cymru. Yn unol ag egwyddor arweiniol y Bwrdd, sef sicrhau bod ei benderfyniadau'n briodol yng nghyd-destun enillion Cymru, trafododd y Bwrdd wybodaeth am dueddiadau cyflog presennol yng Nghymru a'r DU. Trafododd y Bwrdd hefyd ystadegau economaidd ehangach a gyhoeddwyd ers i'r Bwrdd gyhoeddi ei ymgynghoriad, a oedd yn nodi maint effaith y pandemig ar yr economi.

Er gwaethaf adfywiad economaidd am gyfnod y llynedd, mae cyfnodau clo parhaus a mesurau eraill wedi arafu'r adferiad hwn. Ers i'r Bwrdd gyhoeddi ei ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2020, mae'r darlun economaidd wedi gwaethygu fel y dangosir gan y ffigurau a drafodwyd. Yn dilyn ei drafodaeth o'r ystadegau economaidd sydd ar gael, cytunodd y Bwrdd fod y ffigurau hyn yn dystiolaeth o'r effaith sylweddol y mae'r pandemig yn ei chael ar economi a phobl Cymru.

Daeth y Bwrdd i'r casgliad bod difrifoldeb effaith economaidd barhaus y pandemig yn golygu y byddai unrhyw godiad cyflog yn amhriodol yng nghyd-destun cyflogau mewn rhannau eraill o Gymru. Cytunodd y Bwrdd fod ei benderfyniadau ar hyn yn bwysig wrth gynnal hyder y cyhoedd ar adeg pan fo'r wlad yn wynebu cynifer o heriau digynsail. O ystyried y casgliadau hyn, mae'r Bwrdd wedi penderfynu gohirio unrhyw benderfyniad i gynyddu cyflogau am y tro. Yn lle hynny, mae'r Bwrdd wedi cytuno y dylai'r cyflogau presennol barhau am flwyddyn arall.

BWRDD TALIADAU REMUNERATION BOARD

Mewn perthynas â'r dull addasu cyflogau yn y Penderfyniad, nododd y Bwrdd lefel yr anwadaliad yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE), enillion canolrifol gros blynyddol ar gyfer swyddi cyflogeion amser llawn yng Nghymru ar gyfer 2018/19 a 2019/20, ynghyd â'r effaith bosibl yn y mynegai yn y dyfodol yn sgil pandemig Covid-19.

Mae Nodiadau Esboniadol Mesur 2010 yn benodol yn nodi cyfnod o chwyddiant eithriadol o gyflym fel enghraifft o amgylchiadau eithriadol sy'n cyfiawnhau'r Bwrdd i wneud ail benderfyniad neu benderfyniad dilynol sy'n dod i rym yn ystod tymor Senedd.

Rhoddodd y Bwrdd sylw i'w egwyddorion ei hun a nodwyd yn ei strategaeth yn 2017 (fel y nodir uchod) wrth drafod y cynnig hwn.

Mae'r Bwrdd o'r farn bod yr anwadaliad diweddar, ynghyd â risg o oblygiadau tymor hwy parhaus yn deillio o bandemig Covid-19, yn gyfystyr ag amgylchiadau eithriadol sy'n ei gwneud yn gyfiawn ac yn rhesymol newid y Penderfyniad mewn perthynas â dull addasu cyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol.

Mae'r datganiad hwn yn ddatganiad ysgrifenedig i Gomisiwn y Senedd at ddibenion adran 13(5) o Fesur 2010.

BWRDD TALIADAU REMUNERATION BOARD

Atodiad: Tabl newydd yn lle Tabl 1 ym mharagraff 3.1.4.

Tabl 1: Cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol 2021-22

Cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol	Cyflog Sylfaenol 2021-22	Cyflog Ychwanegol 2021-22	Cyfanswm Cyflog 2021-22
Prif Weinidog	£67,649	£80,334	£147,983
Gweinidogion Cymru	£67,649	£38,052	£105,701
Y Cwnsler Cyffredinol ¹	£67,649	£38,052	£105,701
Dirprwy Weinidog	£67,649	£22,197	£89,846
Y Llywydd	£67,649	£43,338	£110,987
Y Dirprwy Lywydd	£67,649	£22,197	£89,846
Comisiynwyr y Senedd	£67,649	£13,741	£81,390
Cadeiryddion pwyllgorau (uwch)	£67,649	£13,741	£81,390
Cadeiryddion pwyllgorau (is)	£67,649	£9,154	£76,803
Aelodau'r Pwyllgor Busnes	£67,649	£9,154	£76,803

¹ Gweler 3.3 Cwnsler Cyffredinol nad yw'n Aelod o'r Senedd

BWRDD TALIADAU REMUNERATION BOARD

Arweinydd grŵp gwleidyddol nad yw yn y Llywodraeth ²	£67,649	£13,741 + £1,057 yr Aelod hyd at £38,052	Yn amrywio o £84,561 i £105,701 ³
---	---------	---	---

² Diffinir Grŵp Gwleidyddol yn Rheolau Sefydlog Senedd Cymru.

³ Mae cyflog Arweinydd Grŵp Gwleidyddol nad yw yn y Llywodraeth wedi'i gapio ar y cyflog sy'n daladwy i un o Weinidogion Cymru.